



**Older People's Commissioner for Wales**  
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

## **FFEITHLEN CYDRADDOLDEB AC AILBENNU RHYWEDD**

### **Cyflwyniad**

Mae ailbennu rhywedd yn 'nodwedd warchoddedig' yn Ndedd Cydraddoldeb 2010. I ddibenion y ffeithlen hon rydym yn defnyddio'r term 'trawsrywiol' i amlygu'r materion sy'n effeithio ar bobl hŷn nad yw eu dewis rhyw efallai yn cyd-fynd gyda'r un y cawsant eu geni gydag ef, neu nad yw efallai'n cael ei ystyried yn gonfensiynol gan gymdeithas. Dylid nodi nad ydy 'trawswisgwyr' wedi'u hamddiffyn gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, dim ond 'trawsrywolion'.

### **Y pynciau**

Mae'n eithriadol o anodd cael ffigurau cywir am y boblogaeth drawsrywiol gyffredinol neu hŷn yng Nghymru na'r DU yn gyffredinol. Y rheswm yn bennaf dros hynny ydy natur sensitif y materion dan sylw a'r ofn sydd gan nifer o bobl trawsrywiol o sut y bydd eraill yn ymateb iddyn nhw.

Mae rhai pobl hŷn wedi trawsnewid pan oedden nhw'n iau ac erbyn hyn wedi heneiddio. Yn y DU dechreuodd y triniaethau meddygol benyw i wryw cyntaf yn hwyr yn yr 1940au a gwryw i fenyw yn yr 1950au. Mae yna rai eraill sydd wedi penderfynu trawsnewid yn ddiweddarach mewn bywyd. Fe fydd gan y ddau grŵp yma brofiadau a dewisiadau bywyd gwahanol iawn.

Mewn sawl ystyr fe fydd gan y grŵp cyntaf brofiadau tebyg o dyfu'n hŷn ag sydd gan y boblogaeth ehangach sy'n heneiddio. Ond, am amrywiol resymau meddygol fe fydd eu profiad o heneiddio wedi cyflwyno heriau unigryw. Fe fydd y grŵp yma hefyd wedi wynebu gelyniaeth am gyfnod hirach. I'r rhai sy'n trawsnewid yn ddiweddarach mewn bywyd, tra bod y sefyllfa ymhell o fod yn berffaith, mae yna ychydig bach mwy o ymwybyddiaeth a derbyniad mewn cymdeithas o faterion trawsrywiol. Mae

trosedd casineb yn erbyn pobl trawsrywiol yn bryder cynyddol, yn enwedig i bobl trawsrywiol hŷn. Yn wahanol i'r rhai sydd efallai dros gyfnod o amser wedi datblygu ffyrdd o ymdopi, gall gelyniaeth pur fod yn sioc annisgwyl i'r rhai sy'n dewis trawsnewid yn ddiweddarach mewn bywyd.

Mae hawl pobl trawsrywiol hŷn i bensiwn yn seiliedig ar eu rhyw ar adeg eu geni oni bai bod ganddyn nhw Dystysgrif Cydnabod Rhyw. Yn yr un modd, mae'r Dystysgrif yn sicrhau bod eu hoedran ymddeol yn cael ei bennu yn ôl eu rhyw newydd.

Dylai gweithwyr asiantaethau cyhoeddus fod yn ymwybodol ei bod yn anghyfreithlon i ddatgelu gwybodaeth am statws trawsrywiol person heb gael eu caniatâd o flaen llaw.

## **Casgliadau**

Mae materion trawsrywiol yn hanfodol gymhleth a gall heneiddio ychwanegu at y cymlethdodau yma. Wrth i bobl trawsrywiol ddod yn fwy hyderus ac yn fwy niferus fe fydd yn holl bwysig bod gwasanaethau cyhoeddus yn ymwybodol o'u hanghenion ac yn gallu ymateb iddyn nhw.

Mae yna ymwybyddiaeth a chydnabyddiaeth cynyddol o natur agored bregus pobl trawsrywiol hŷn i drosedd casineb ac aflonyddu. Yn anffodus gall yr elyniaeth gyffredinol yma fynd law yn llaw gyda diffyg urddas a pharch mewn lleoliadau gofal, er enghraifft, gall pobl trawsrywiol hŷn yn dioddef dementia sy'n cael eu gwisgo mewn dillad eu rhyw gwreiddiol ddioddef straen eithafol a chyfrannu at eu dryswch. Mae hyn yn groes i'r amddiffyniad a gynigir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac mae hefyd yn torri eu hawliau dynol. Dylai gwasanaethau cyhoeddus dreulio amser yn meddwl am y materion yma a phenderfynu sut i ymateb.

I weld y gronfa dystiolaeth ar gyfer y daflen ffeithiau hon a rhagor o adnoddau ewch i [www.olderpeoplewales.com](http://www.olderpeoplewales.com)